



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diogelu eich sefydliad rhag casineb a aflonyddu

Canllaw ymarferol

llyw.cymru

Cynnwys

Cardiau Cyfeirio Cyflym	3
Rhan 1: Deall y Tirlun Bygythiadau	4
Sut mae ymgyrchoedd yn erbyn sefydliadau fel arfer yn datblygu	4
Aflonyddu neu ryddid mynegiant	5
Pryd mae'n gamwybodaeth, yn dwyllwybodaeth neu'n rhywbeth arall?	5
Rhan 2: Strategaethau Atal	7
Adnodd Archwilio Diogelwch Digidol	7
Cymorth a gosodiadau llwyfannau cyfryngau cymdeithasol	8
Ystyriaethau Diogelwch wrth Gynllunio Digwyddiadau – Cwestiynau i'w gofyn	9
Hyfforddiantar y Hanfodion i Staff – Awgrymiadau am yr hyn y dylai pawb ei wybod	10
Rhan 3: Gweithdrefnau Ymateb i Ddigwyddiadau	12
Camau ymateb ar unwaith – Beth i'w wneud os ydych chi'n cael eich targedu	12
Templedi Dogfennau – Sut i gofnodi digwyddiadau'n effeithiol	14
Rhan 4: Strategaethau cyfathrebu	15
Deinameg llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad defnyddwyr	15
Damcaniaeth Sylfeini Moesol	15
Naratif amgen yn hytrach na gwrth-naratif	16
Partneriaethau rhagweithiol	16
Rhan 5: Cyfeiriadur cymorth	17

Rydym wedi datblygu'r canllaw hwn i'ch helpu chi a'ch sefydliad i baratoi ar gyfer gelyniaeth a chamdriniaeth, a llywio'r materion hyn. Mae'r elyniaeth hon hefyd wedi cael ei galw'n 'aflonyddu sy'n cyfyngu ar ryddid', a ddiffinnir gan Adolygiad Khan fel "pan fydd pobl yn profi neu'n dyst i aflonyddu bygythiol neu sarhaus ar-lein a/neu all-lein sydd â'r bwriad o wneud i bobl neu sefydliadau sensro neu hunan-sensro o ofn." Er bod y canllawiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gam-drin ac aflonyddu ar-lein, maen nhw hefyd yn sôn am gamau i'w cymryd pan fydd hyn ddigwydd yn y byd go iawn.

Cardiau Cyfeirio Cyflym

Rhestr Wirio “Cyn iddo Ddigwydd”

- **Gwnewch y pethau sylfaenol:** Gosod Dilysiad Dau Ffactor (2FA) ar draws pob cyfrif, cyfyngu ar fynediad gweinyddwr, gosod cyfrineiriau cryf.
- **Adolygu eich ôl troed digidol:** Pa wybodaeth bersonol adnabyddadwy sy'n bodoli am staff ar-lein? A yw'r wybodaeth hon yn hanfodol neu oes modd ei dileu?
- **Paratoi eich tîm:** Ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n cael eu haflonyddu? Sefydlu prosesau ac arferion gorau – gwneud yn siŵr bod pawb yn deall.

Cynllun Gweithredu “Mae'n Digwydd Nawr”

- **Peidio ag ymateb:** Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall risgiau ymgysylltu ag aflonyddu ar-lein yn uniongyrchol. Rhoi gwybod i lwyfannau am gynnwys sy'n torri eu telerau gwasanaeth.
- **Diogelu eich pobl:** A oes unrhyw berygl ohono'n digwydd all-lein hefyd? Nodi pa mor uniongyrchol yw'r risg a chymryd camau diogelwch ar unwaith os oes angen.
- **Dogfennu ac uwchgyfeirio:** Os ydych chi'n teimlo bod trosedd wedi cael ei chyflawni, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw tystiolaeth ac yn uwchgyfeirio'r mater yn unol â hynny.

Cyfeiriadur Cyswllt “Pwy i'w ffonio”

- Ffoniwch yr heddlu os oes perygl uniongyrchol i fywyd, os oes trais neu fygythiadau o drais, os yw'r trosedd yn dal i fynd rhagddo neu os yw'r un a amheuir yn dal i fod yn y fan a'r lle. Gallwch ddefnyddio pyrth adrodd ar-lein yr heddlu ar gyfer troseddau nad ydynt yn rhai brys.
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth Casineb Cymru os ydych chi'n credu bod trosedd casineb wedi'i chyflawni: reporthate.victimsupport.org.uk
- Defnyddiwch Linell Gymorth Iechyd Meddwl CALL ar gyfer Cymru i gael cymorth emosiynol neu iechyd meddwl: **0800 132 737**
- Cysylltwch â Cyngor ar Bopeth i gael cyngor am ddim ar faterion cyfreithiol: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg

RHAN 1

Deall y tirlun bygythiadau

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fwyfwy i ddychryn neu aflonyddu ar unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi cynhwysiant a chydaddoldeb yng Nghymru. Gall targedu fod yn drawmatig, tarfu ar waith sefydliadau a rhoi staff a defnyddwyr gwasanaeth mewn perygl. Er nad yw'r rhan fwyaf o fygythiadau yn symud o'r byd ar-lein i'r byd all-lein, gall y niwed fod yn sylweddol o hyd.

Er bod yn rhaid cymryd pryderon am aflonyddu o ddifrif, mae'n dal yn hanfodol bod sefydliadau – yn enwedig y rheini sy'n cael arian cyhoeddus – yn agored i graffu a thryloywder priodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth ac atebolrwydd. Mae'r canllaw ymarferol hwn yn ceisio helpu sefydliadau i nodi'r gwahaniaeth rhwng craffu dilys ac aflonyddu ac ystyried sut y gallant ddiogelu eu hunain lle bo angen.

Sut mae ymgyrchoedd yn erbyn sefydliadau fel arfer yn datblygu

Cafwyd sawl enghraifft o sefydliadau ac unigolion yn cael eu targedu a'u harasio wrth ddarparu gwasanaethau cymunedol ledled Cymru. Roedd gan y digwyddiadau hyn nodweddion cyffredin:

- Mae digwyddiadau'n aml yn **dechrau ar-lein** ar ôl i sefydliad rannu neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at ddarn o waith, fel digwyddiad, prosiect addysgol, neu hyfforddiant proffesiynol i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Mae postiadau hanesyddol am y pynciau hyn hefyd yn cael eu targedu fwyfwy.
- Bydd defnyddwyr yn ceisio gwylltio pobl (ymgysylltu) drwy gamliwio gwaith neu negeseuon y sefydliad. Mae goriwio camwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i annog **llwyth** o sylwadau negyddol sy'n targedu sefydliad neu staff.
- Gall gweithredwyr maleisus wneud ymdrechion i ddocsio staff drwy ryddhau neu dynnu sylw at **wybodaeth bersonol adnabyddadwy** – fel enwau llawn, teitlau swyddi, lleoliadau swyddfeydd, rhifau ffôn personol, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chyfeiriadau e-bost. Ystyr 'docsio' yw pan fydd defnyddiwr yn casglu gwybodaeth gyda'r bwriad o godi cywilydd ar unigolyn neu ei ddychryn. Mae'r wybodaeth hon yn aml yn cael ei chasglu o ffynonellau cyhoeddus fel cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol agored a gwefannau sefydliadau.
- Mewn rhai achosion, mae'r gweithgarwch ar-lein yn arwain at **aflonyddu all-lein**. Gallai hyn gynnwys: unigolion neu grwpiau sy'n ymweld ag eiddo sefydliad i ddychryn, cyfweld neu ffilmio fandaliaeth, gohebiaeth faleisus, neu gam-drin corfforol.

Aflonyddu neu ryddid mynegiant

Dynol 1998. Mae'n diogelu hawl pawb i arddel barn bersonol a'i mynegi'n rhydd heb ymyrraeth gan y llywodraeth. Mae hon yn hawl ddynol sylfaenol sy'n hwyluso cymdeithas ddemocrataidd agored a theg. Dylai alluogi pobl i gytuno neu anghytuno â'r rheini sydd â phŵer a dylanwad, a gwneud hynny heb ofni dial. Mae rhyddid i lefaru hefyd yn caniatáu i unigolion fynegi barn amhoblogaidd neu sarhaus. Mae'n bwysig dweud ei bod yn bosibl iawn y bydd Erthygl 10 yn diogelu datganiadau beirniadol neu ddatganiadau sy'n peri gofid am waith eich sefydliad fel eu bod yn gyfreithlon, ni waeth pa mor annymunol neu annifyr y gallent fod.

Fodd bynnag, nid yw'r rhyddid i lefaru yn diogelu ymddygiad anghyfreithlon fel bygythiadau o drais, iaith casineb ac aflonyddu, boed hynny ar-lein neu fel arall.

Yng Nghymru a Lloegr, ceir amrywiaeth o Ddeddfau Seneddol sy'n cynnwys troseddau a all fod yn berthnasol:

- Gall amddiffyniadau troseddau casineb fod yn berthnasol ar-lein neu fel arall ac maent wedi'u cynnwys yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Dedfrydu 2020.
- Nodir troseddau annog casineb (ar sail hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol) yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986.
- Mae troseddau cyfathrebu maleisus yn cael eu hamlinellu yn Neddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.
- Mae troseddau sy'n ymwneud ag aflonyddu a stelcio wedi'u cynnwys yn Neddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997.
- Mae troseddau annog terfysgaeth wedi'u cynnwys yn Neddf Terfysgaeth 2006.
- Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn gwahardd lledaenu twyllwbyodaeth a allai achosi niwed nad yw'n fân niwed.

Gall fod yn anodd canfod a yw digwyddiad wedi croesi'r llinell o ryddid i lefaru annymunol ond wedi'i ganiatáu i weithgarwch anghyfreithlon. Os ydych chi'n teimlo bod y llinell hon wedi cael ei chroesi, rydym yn argymhell eich bod yn rhoi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad.

Pryd mae'n gamwbyodaeth, yn dwyllwbyodaeth neu'n rhywbeth arall?

Gall fod yn anodd gwahanu beirniadaeth neu gredoau dilys am waith eich sefydliad oddi wrth ledaenu camwbyodaeth. Mae camwbyodaeth yn aml yn cael ei defnyddio fel term cyffredinol ar gyfer lledaenu gwybodaeth sy'n ffug ac a allai achosi niwed. Fodd bynnag, mae gwahanol fathau o'r arfer hwn y mae angen eu deall.

Mae **camwbyodaeth** yn cyfeirio at wybodaeth anwir y gellir ei dilysu sy'n cael ei rhannu heb fwriad i gamarwain. Gall effeithiau hyn fod yn niweidiol o hyd.

Mae **twyllwbyodaeth** yn cyfeirio at wybodaeth ffug y gellir ei dilysu sy'n cael ei rhannu gyda'r bwriad o dwyllo a charmarwain. Gall hyn yn aml arwain at ganlyniadau niweidiol.

Mae **gwybodaeth gamarweiniol** yn cyfeirio at wybodaeth sydd weithiau'n wir, neu'n rhannol wir, sy'n cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n cael effeithiau tebyg i dwyllwybodaeth. Er enghraifft, gellir tynnu ffeithiau neu ystadegau allan o'u cyd-destun i gefnogi honiadau ffug neu honiadau sydd wedi'u gorliwio. Mae camwybodaeth yn ymgais fwriadol i gamarwain drwy ystumio gwybodaeth wir.

Neu, efallai y bydd rhai o'r honiadau y bydd pobl yn eu gwneud am eich sefydliad yn cael eu golygu neu eu fframio i gefnogi eu barn neu eu credoau. Efallai na fydd ymgais fwriadol i gamarwain neb.

Gall fod yn anodd iawn profi'r cymhelliant y tu ôl i weithredoedd y rhai sy'n beirniadu eich sefydliad. Gall y cymhellion fod yn faleisus neu ddim.

RHAN 2

Strategaethau atal

Ar ôl trafod natur y bygythiad a diffinio troseddau a chymhellion posibl y rhai sy'n targedu eich sefydliad, rydym yn symud ein ffocws i'r ffordd orau o baratoi ac atal rhywfaint o hyn rhag digwydd.

Adnodd Archwilio Diogelwch Digidol

Mae Templed yr Archwiliad Diogelwch Digidol wedi'i ddylunio i'ch helpu i asesu sut mae eich ôl troed ar-lein o bosibl yn eich gwneud yn agored i niwed – a pha mor gyflym mae angen rhoi sylw i hyn. Bydd yr adnodd yn eich helpu i ddefnyddio eich crebwyll eich hun ynghylch a oes angen rhoi sylw i'ch ôl troed.

Cyn llenwi'r Templed Archwiliad Diogelwch Digidol isod, byddem yn argymhell eich bod yn mynd i wefan Cyber Essentials y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Mae'r wefan hon yn darparu canllawiau pwysig sy'n hawdd eu defnyddio ar gyfer sawl math o sefydliad – [Cyber Essentials – NCSC.GOV.UK](#)

Asesiad diogelwch digidol

Maes yr ôl troed	Categori	Cwestiwn i'w ystyried	Angen sylw?
Presenoldeb ar y we ac ar-lein	Cyfeiriad y sefydliad	A yw'n hanfodol bod yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd? A ellid defnyddio Blwch Post yn lle hynny?	
	Enwau'r staff	A oes angen cyhoeddi enwau personol gweithwyr? Allwch chi ddefnyddio teitlau swyddi yn lle hynny?	
	Manylion cyswllt	A oes gennych gyfeiriad e-bost ymholiadau cyffredinol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymholiadau allanol, yn hytrach nag e-bost personol? Gellir casglu cyfeiriadau e-bost ar gyfer ymosodiadau gwe-rwydo.	
	Lluniau staff	A oes angen darparu lluniau o staff? A yw'r staff yn cydsynio i'r lluniau hyn fod yn gyhoeddus? Cofiwch, gellir chwilio am luniau ar-lein i ddod o hyd i rai sy'n cyfateb ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol neu rywle arall.	
	Lleoliadau digwyddiadau	Oes angen i chi gyhoeddi cyfeiriadau penodol yn gyhoeddus ar-lein cyn digwyddiadau? Os felly, a ellid peidio â gwneud hyn tan ychydig cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal?	
	Cynnwys y wefan	Ystyriwch adolygu eich presenoldeb ar y we am wybodaeth y gellid ei chamddehongli'n fwriadol neu'n anfwriadol. Defnyddiwch iaith glir wrth ddisgrifio gwaith y sefydliad er mwyn osgoi camddealltwriaeth. Cadwch gynnwys yn gyfredol mewn ymateb i'r dirwedd sy'n newid. Tynnwch adnoddau hanesyddol neu straeon newyddion os nad ydynt yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i'ch cynulleidfa mwyach.	

Maes yr ôl troed	Categori	Cwestiwn i'w ystyried	Angen sylw?
Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol	Gwybodaeth proffil	A yw cyfrif eich sefydliad yn datgelu unrhyw wybodaeth yn y bywgraffiad a allai fod yn ddefnyddiol i ymosodwyr? Ydych chi'n gallu cloi eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddilynwyr neu'r rheini rydych chi am iddynt weld y pethau rydych chi'n eu rhannu?	
	Data lleoliad	Ydych chi'n rhannu data lleoliad amser real yn eich negeseuon? Cofiwch y gellid cadw rhywfaint o ddata geotag pan fydd lluniau'n cael eu rhannu.	
	Cyfrifon personol staff	A ofynnwyd i staff beidio â datgelu eu cyflogwr ym mywgraffiadau eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol? A yw'r sefydliad wedi cynnal archwiliad i weld a allai ymosodwr ddod o hyd i'r manylion hyn ar-lein? Ydych chi wedi ystyried negeseuon hanesyddol (bydd unigolion penderfynol yn mynd drwy proffiliau hanesyddol â chrib mân ac yn cyflwyno gwybodaeth fel pe bai'n newydd)?	

Mae Protect UK wedi datblygu adnodd defnyddiol iawn, sef 'Blue Book: A Guide to Personal Security', sy'n cynnwys adrannau ar [ddiogelwch TG a chyfathrebu ar-lein](#) a [Chyhoeddusrwydd a'r Cyfryngau](#), a allai fod yn ddefnyddiol i chi eu hystyried.

Cymorth a gosodiadau llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Cofiwch y bydd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel arfer yn darparu amrywiaeth o dudalennau cymorth i'ch helpu i sefydlu dilysiad dau ffactor, adolygu gosodiadau preifatrwydd, cyfyngu ar fynediad at dudalennau, tagio neu anfon negeseuon, gwahardd neu rwystro cyfrifon a'ch helpu i ddeall canllawiau neu delerau gwasanaeth cymunedol. Mae dolenni isod i dudalennau cymorth rhai o'r llwyfannau mwyaf cyffredin, ond bydd gan llwyfannau eraill eu tudalennau eu hunain:

Bluesky [Canllawiau Cymunedol – Bluesky](#)

Facebook [Canolfan Gymorth Facebook](#)

Instagram [Canolfan Gymorth](#)

LinkedIn [Cymorth LinkedIn](#)

Snapchat [Cymorth Snapchat](#)

Tiktok <https://support.tiktok.com/>

WhatsApp <https://faq.whatsapp.com/>

X [Caolfan Gymorth](#)

Youtube [Cymorth YouTube](#)

Mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn annhebygol o gymryd camau yn erbyn cyfrifon neu gynnwys nad yw'n torri eu Telerau Gwasanaeth neu eu Canllawiau Cymunedol. Bydd pob llwyfan yn cynnwys y rhain ar eu llwyfan a dylai sefydliadau ystyried y rhain i ddeall sut mae codi materion gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Ystyriaethau Diogelwch wrth Gynllunio Digwyddiadau – Cwestiynau i’w gofyn

Wrth gynllunio digwyddiad wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, mae’n ddefnyddiol meddwl am ddiogelwch yn gynnar. Defnyddiwch y cwestiynau hyn fel rhestr wirio i wneud yn siŵr bod risgiau’n cael eu canfod a’u rheoli cyn y diwrnod.

Cam	Maes	Cwestiynau i’w Gofyn
Cyn y Digwyddiad	Lleoliad a Mynediad	• Pwy sy’n rheoli’r fynedfa/allanfa/cyntedd cyfarfod? • A oes angen tocynnau ar y rhai sy’n dod i’r digwyddiad neu restr gwesteion i reoli pobl sy’n tarfu? • Ydych chi’n dal manylion y lleoliad/dolenni i’r cyfarfod yn ôl tan ychydig cyn y digwyddiad? • Os yw’n cael ei gynnal ar-lein, oes angen cod cyfrin cyfarfod? Dylid rhannu’r ddolen ymuno â chyfranogwyr drwy ddulliau cyfathrebu uniongyrchol yn unig (peidio â’u hysbysebu ar y we). • Sut mae staff yn gwirio’r rhai sy’n bresennol pan fyddant yn cyrraedd?
	Staff a Gwirfoddolwyr	• A yw pawb yn gwybod beth yw eu rolau os bydd rhywbeth yn mynd o’i le? • Pwy yw’r arweinydd diogelwch a enwir? • A oes angen swyddogion diogelwch? Os na, pa fesurau lliniaru eraill sydd ar waith i reoli anhrefn a chofnodi tystiolaeth? • A yw staff wedi cael cyngor i beidio â siarad â thrydydd partion annisgwyl sy’n ymddangos fel pe baent yn ffilmio’r digwyddiad a’r rhyngweithio â’ch sefydliad?
	Technoleg a Diogelwch Ar-lein	• Ydych chi’n defnyddio cyfrifon y sefydliad (nid rhai personol)? • Ydych chi’n gallu tewi/rhwystro cyfranogwyr? • A yw’r rheolaethau hyn wedi’u cyfyngu i drefnydd yr alwad? • A yw cyfranogwyr yn cael eu hatal rhag rhannu eu sgrin?
	Diogelu Data	• Sut ydych chi’n storio gwybodaeth am fynychwyr (taflenni mewngofnodi, ffurflenni cofrestru)? • Pwy sy’n gyfrifol am ei drin/dileu wedyn?
Yn ystod y Digwyddiad	Mynediad a Monitro	• Pwy sy’n monitro mynediad, sgwrsio neu ymddygiad cynulleidfaoedd? • A oes ffordd glir ac effeithiol i’r rhai sy’n bresennol dynnu sylw at broblemau?
	Cyfathrebu	• Pwy yw’r un pwynt cyswllt ar gyfer materion brys? • A yw staff yn gwybod sut i roi gwybod am aflonyddu neu ymddygiad amheus yn gyflym?
	Cynllunio ar gyfer Argyfwng	• Beth fyddwch chi’n ei wneud os bydd trolio, aflonyddu neu brotest yn digwydd? • Pwy sydd ag awdurdod i oedi/stopio’r digwyddiad os oes angen? • Sut byddech chi’n cofnodi digwyddiadau (cipluniau, nodiadau, lluniau, adroddiadau’r heddlu)?

Cam	Maes	Cwestiynau i'w Gofyn
Ar ôl y Digwyddiad	Adolygu Digwyddiadau	- A ddigwyddodd unrhyw beth y mae angen mynd ar ei drywydd (cwynion, trolïo, torri rheolau diogelwch)? - Pwy fydd yn arwain y gwaith o ysgrifennu beth sydd wedi gweithio/beth sydd heb weithio?
	Cymorth i Staff/ Gwirfoddolwyr	- A oes ôl-drafodaeth gyflym er mwyn i staff/gwirfoddolwyr allu rhannu pryderon? - A oes angen cymorth dilynol ar unrhyw unigolyn ar ôl delio â sefyllfaoedd anodd?
	Camau Dilynol Allanol	- A oes angen i chi roi gwybod i'r lleoliad, yr heddlu neu ddarparwr y platfform am ddigwyddiadau? - A ddylech ddiweddarau cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar sail yr hyn a ddysgoch?

Mae Protect UK wedi datblygu adnodd defnyddiol iawn, sef 'Blue Book: A Guide to Personal Security', sy'n cynnwys adrannau ar [weithdrefnau ar gyfer digwyddiadau](#) a [bygythiadau ffisegol](#), a allai fod yn ddefnyddiol i chi eu hystyried.

Cofiwch hefyd ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar eich pen eich hun, gan gynnwys mewn digwyddiadau sefydliadau eraill. Sicrhewch fod gan eich sefydliad bolisi gweithio ar eich pen eich hun gyda mesurau diogelu a phrosesau priodol sy'n cael eu cyfleu'n rheolaidd i staff. Er enghraifft, mae sefydlu protocolau ar gyfer dal i fyny a chysylltu â rheolwyr wrth iddynt deithio neu weithio ar eu pen eu hunain yn arfer da.

Hyfforddiant ar yr hanfodion i staff – Awgrymiadau am yr hyn y dylai pawb ei wybod

Mae gan gyflogwyr ddyletswyddau cyfreithiol i geisio cadw eu staff yn ddiogel yn y gwaith. Er nad oes modd atal cam-drin ar-lein bob amser, mae camau y gellir eu cymryd i helpu'r holl staff i deimlo'n fwy hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi i gadw'n ddiogel ar-lein a gwybod beth i'w wneud os bydd aflonyddu'n digwydd. Dylai sefydliadau bob amser geisio cyngor am eu cyfrifoldebau a'u hamgylchiadau unigol.

Maes	Canllawiau Allweddol
Cyfrineiriau a Mynediad	- Defnyddiwch gyfrineiriau cryf ac unigryw ar gyfer cyfrifon gwaith bob amser. - Peidiwch byth â rhannu manylion mewngofnodi, hyd yn oed gyda chydweithwyr rydych yn ymddiried ynddynt. - Defnyddiwch brawf dilysiad dau gam lle bynnag y bo modd.
Cyfrifon Personol a Chyfrifon Gwaith	- Peidiwch â rheoli tudalennau sefydliadau o broffiliau personol os oes modd osgoi hynny. - Cadwch eich barn personol ar eich cyfrif eich hun – peidiwch â chymylu'r llinellau. - Peidiwch byth â datgelu i bwy nac ym mhle rydych chi'n gweithio ar gyfrifon personol.

Maes	Canllawiau Allweddol
Adnabod Aflonyddu	• Mae troliau yn chwilio am ymateb – nid ydynt yn ymgysylltu oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol a byth o gyfrifon personol. • Uwchgyfeiriwch negeseuon/sylwadau sarhaus yn hytrach na delio â nhw ar eich pen eich hun. • Cofiwch nad chi sy'n bwysig; mae'n ymwneud â'r sefydliad sy'n cael ei dargedu a chredoau'r ymosodwr.
Adrodd ac Uwchgyfeirio	• Bod yn ymwybodol o'r broses fewnol: wrth bwy i ddweud os ydych chi'n gweld cam-drin ar-lein. • Rydym yn eich annog i roi gwybod am unrhyw gam-drin rydych chi'n ei ddioddef. • Defnyddiwch offer llwyfan i dewi, rhwystro neu riportio – peidiwch â'i adael yn y golwg. • Cadwch sgrinluniau neu gofnodion os yw rhywbeth yn ddifrifol. • Sicrhau bod hyfforddiant staff yn cynnwys y gweithdrefnau hyn a phrosesau gweithio ar eich pen eich hun.
Preifatrwydd a Diogelwch	• Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd eich hun ar y cyfryngau cymdeithasol – cyfyngwch ar yr hyn y gall dieithriaid ei weld. • Peidiwch â rhannu gwybodaeth gyswllt bersonol ar sianeli'r sefydliad. • Meddyliwch ddwywaith cyn rhannu manylion y lleoliad mewn amser real.
Llesiant	• Os yw cam-drin ar-lein yn effeithio arnoch chi, rhowch wybod i reolwr – dylai cymorth fod ar gael. • Ni ddylid disgwyl i neb wynebu aflonyddu ar ei ben ei hun. • Cymerwch seibiant o'r gwaith monitro os yw'n eich llethu.

RHAN 3

Gweithdrefnau Ymateb i Ddigwyddiadau

Camau ymateb ar unwaith – Beth i’w wneud os ydych chi’n cael eich targedu

Mae barn bersonol y rhai sy’n gweithio yn y trydydd sector yn debygol o gyd-fynd yn agos â nodau’r sefydliad y maent yn ei gynrychioli. Pan fydd aflonyddu ar-lein neu ddigwyddiadau cysylltiedig yn y byd go iawn yn digwydd, mae’n debygol o deimlo fel ymosodiad uniongyrchol ar y gweithiwr neu’r defnyddwyr gwasanaeth maen nhw’n eu cefnogi. Greddf naturiol yw amddiffyn eich hun neu deimlo bod tomen o gyfrifon gelyniaethus yn eich targedu. Fodd bynnag, gall y camau clir canlynol y gallwch eu cymryd ar unwaith helpu i dawelu’r sefyllfa, diogelu staff, a rheoli cyfathrebiadau’n effeithiol.

Cam	Camau Gweithredu
Adnabod a Chyfangu	• Neilltuo un unigolyn i gydlynw’r ymateb ar gyfer y sefydliad. • Pennu natur a chwmpas y digwyddiad ar-lein ac unrhyw beth sy’n digwydd all-lein. Pwy sydd mewn perygl a pha mor amlwg yw’r perygl? • Rhowch fesurau diogelwch ar waith ar unwaith: cyfyngu ar fynediad i safleoedd, cyfrifon TG neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol; dileu neu rwystro cynnwys os oes angen; tewi/rhwystro cyfrifon camdriniol. • Rhowch wybod i staff y mae angen iddynt wybod, yn enwedig y rheini y mae’n effeithio’n uniongyrchol arnynt. Rhowch fanylion y cymorth llesiant presennol sydd ar gael i staff. • A oes angen mesurau diogelwch newydd (ee ailosod cyfrineiriau; laniardiau rhybuddion argyfwng; gweithdrefnau dal i fyny newydd)? • Dechreuwch gasglu tystiolaeth os ydych chi’n credu bod trosedd wedi’i chyflawni.
Uwchgyfeirio’n Fewnol	• Rhowch wybod i uwch staff ac unrhyw staff allweddol/Ymddiriedolwyr eraill. • Cofnodwch yr holl weithgarwch: sgrinluniau, URLs, stampiau amser ac ati. • Penderfynwch a oes angen cymorth allanol (timau adrodd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yr heddlu, diogelwch lleoliadau). • Atgoffwch staff o’r gweithdrefnau ymateb. • Rhowch friff i’r staff ar ymddygiad priodol: peidio ag ymgysylltu â throliau neu gamdrinwyr wyneb-yn-wyneb, cadw at sianeli cyfathrebu swyddogol, rhoi gwybod am weithgarwch amheus. • Cofiwch gynnwys eich Ymddiriedolwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth a’u cefnogi.

Cam	Camau Gweithredu
Ystyriwch Cyfathrebu Allanol	• Ystyriwch roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiad difrifol. • Aseswch a yw ymateb cyhoeddus yn briodol. Os cewch ymateb, mae'r gwaith gwrth-naratif mwyaf llwyddiannus yn digwydd o fewn yr awr neu ddwy gyntaf. • Rhowch flaenoriaethu i'ch ymateb cyfathrebu cyffredinol ar sail y tebygolrwydd o niwed i'r cyhoedd – canolbwyntiwch ar a yw'n fygythiad i ddiogelwch. • Ystyriwch eich cynulleidfa'n ofalus – efallai y bydd angen anfon gwahanol negeseuon drwy wahanol sianeli ar gyfer pob cynulleidfa. • Dylai datganiad cynnal geisio gwneud y canlynol: » Sefydlu beth sy'n hysbys am y sefyllfa. Defnyddio gwybodaeth glir a ffeithiol yn hytrach nag ailadrodd honiadau ffug. Bod yn gryno » Darparu negeseuon sy'n gallu tawelu meddyliau rhanddeiliaid, ymrwymo i ddiweddariadau rheolaidd a dibynadwy. Rhoi syniad clir o'r diweddariadau nesaf neu'r pwyntiau adolygu. Enghraifft: "Byddwn yn rhoi diweddariad llawn yfory unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau." » Peidiwch â defnyddio'r termau 'camwybodaeth' neu 'twyllwybodaeth' oni bai eich bod yn siŵr mai dyna ydyw. » Peidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw. » Eglurwch beth mae'r sefydliad wedi'i wneud i reoli'r digwyddiad. Dylech gynnwys camau a gymerwyd i leihau'r niwed. » Amlinellwch unrhyw gamau y dylai staff, ymddiriedolwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth eu cymryd i gadw'n ddiogel. Enghreifftiau: "Peidiwch ag ymgysylltu â throliau," "Rhowch wybod i'ch rheolwr llinell am unrhyw weithgarwch amheus", "Dilynwch y sianeli swyddogol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf." Gweler 'Rhan 4: strategaethau cyfathrebu' i gael rhagor o fanylion.
Monitro a Chefnogi	• Parhau i fonitro datblygiadau ar-lein ac all-lein. • Rhoi cymorth i staff yr effeithir arnynt (sesiynau galw heibio, mynediad at adnoddau llesiant). • Ystyried sut gallai aflonyddu effeithio'n anghymesur ar staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth o gefndiroedd sydd ar y cyrion, a sut gallai fod angen gwahanol lefelau o gymorth arnynt. • Adolygwch y cofnodion a chynllunio'r camau nesaf ar gyfer cyfyngu neu gyfathrebu pellach. • Trefnu ôl-drafodaeth i adolygu'r digwyddiad a llywio'r gwaith o gynllunio adferiad/cadernid. • Ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r sefyllfa ac adolygu a diweddarau arferion mewnol mewn ymateb.

Templedi Dogfennau – Sut i gofnodi digwyddiadau’n effeithiol

Llenwch hwn cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad. Cadwch bethau’n ffeithiol ac yn gryno. Cadwch sgrinluniau neu dystiolaeth arall ochr yn ochr â’r ffurflen hon.

Maes	Enghraifft / Canllawiau
Dyddiad ac Amser y Digwyddiad	Pryd ddechreuodd y digwyddiad a/neu pryd y sylwyd arno?
Llwyfan/Lleoliad	Ee Twitter/X, Tudalen Facebook, Instagram, LinkedIn, lleoliad wyneb-yn-wyneb.
Disgrifiad o’r Digwyddiad	Crynodeb ffeithiol byr: beth ddigwyddodd, pa gynnwys oedd yn ymddangos, pwy oedd yn gysylltiedig.
Camau a Gymerwyd ar Unwaith	Ee tynnu cynnwys, tewi/rhwystro cyfrifon, rhoi gwybod i staff.
Staff cysylltiedig/ y rhoddwyd sylw iddynt	Pwy welodd, pwy ymatebodd, phwy uwchgyfeiriodd y digwyddiad.
Cymorth Allanol	Ee adrodd ar blatfformau, yr heddlu, staff diogelwch y lleoliad (os yw’n berthnasol).
Tystiolaeth	Sgrinluniau, dolenni, lluniau, fideos – atodwch neu gyfeiriwch atyn nhw yma.
Camau gweithredu dilynol y mae angen eu cymryd	Y camau nesaf: cyfathrebu pellach, monitro, ôl-drafodaeth, cyfeirnod y cynllun adfer.
Nodiadau Ychwanegol	Unrhyw gyd-destun neu arsylwadau perthnasol eraill.

RHAN 4

Strategaethau cyfathrebu

Mae strategaethau cyfathrebu yn agwedd hanfodol i'w hystyried fel rhan o'ch ymateb. Fodd bynnag, mae pethau i chi eu deall am sut mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gweithio, realiti ymddygiad defnyddwyr, sut mae negeseuon yn taro tant â'r cyhoedd, a sut gall rhai mathau o ymatebion waethygu'r problemau rydych chi'n eu hwynebu.

Deinameg llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad defnyddwyr

Gall algorithmau siapio effeithiolrwydd strategaethau cyfathrebu. Maent yn blaenoriaethu cynnwys tebyg i'r hyn yr oedd defnyddwyr wedi ymgysylltu ag ef o'r blaen neu'r hyn sy'n boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd tebyg. Mae cynnwys dadleuol neu wedi'i symleiddio'n ormodol yn aml yn denu ymgysylltiad uchel, ac ar lwyfannau fel X, mae crewyr yn cael eu gwobrwyo'n ariannol am ymgysylltiad o'r fath. Gall yr amgylchedd hwn wneud camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn fwy grymus. Mae ymgysylltu'n lledaenu cynnwys ymhellach, hyd yn oed pan fydd defnyddwyr yn ei wrthwynebu. Gall gwrthbrofiadau uniongyrchol gael effaith gwbl groes drwy gynhyrchu cynnwys newydd i'w wyrdroi. Dyna pam rydym yn cynghori'n gyffredinol yn erbyn ymateb i'r troliau.

Mae rhagfarn algorithmig at gynnwys dadleuol yn cael ei gryfhau gan lai o gymedroli. Mae defnyddwyr sy'n ceisio ymgysylltu yn gwybod bod gwaharddiadau ar lawer o lwyfannau bellach yn llai tebygol, gan olygu nad yw llwyfannau'n rhoi llawer o gefnogaeth ar gyfer aflonyddu. Anaml iawn y bydd ymdrechion i fynd i'r afael â chamwybodaeth gyda ffeithiau a dolenni'n llwyddo: gall llwyfannau fel X a Meta israddio negeseuon sy'n cynnwys hyperddolenni, ac mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn darllen erthyglau maen nhw'n eu rhannu – mae astudiaethau'n awgrymu nad yw hyd at 75% o newyddion a rennir byth yn cael ei glicio drwy boster.

Yn olaf, anaml y bydd ffeithiau'n newid meddyliau pan fyddant yn gwrthdaro â safbwyntiau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Anaml iawn y bydd dweud wrth rywun eu bod yn anghywir yn gweithio. Yn hytrach, mae fframio eich neges i gyd-fynd â'u gwerthoedd yn llawer mwy effeithiol. Mae cydnabod y ddeinameg hon yn hanfodol er mwyn llunio strategaeth gyfathrebu sy'n atseinio ac yn osgoi atgyfnerthu cylchoedd niweidiol.

Damcaniaeth Sylfeini Moesol

Mae Damcaniaeth Sylfeini Moesol yn awgrymu bod pobl yn barnu'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir ar sail chwe 'sylfaen' craidd:

1. **Gofal/Niwed** – Tosturi a gwarchodaeth rhag dioddefaint.
2. **Tegwch/Twylllo** – Cyfiawnder, cydraddoldeb a thriniaeth deg.

3. **Teyrngarwch/Bradychu** – Sefyll gyda'ch grŵp neu'ch cymuned.
4. **Awdurdod/Tanseilio** – Parch at draddodiad ac arweinyddiaeth.
5. **Sancteiddrwydd/Israddio** – Purdeb, cysegredigrwydd ac osgoi halogi.
6. **Rhyddid/Gormes** – Rhyddid rhag dominyddiaeth neu reolaeth.

Mae elusennau'n aml yn apelio at Ofal a Thegwch wrth fynd i'r afael â chamwybodaeth, casineb neu aflonyddu. Mae'r negeseuon hyn yn taro tant gyda chefnogwyr naturiol, ond mae cynulleidfaoedd gwahanol yn ymateb i negeseuon sydd wedi'u fframio ar draws pob sylfaen. I lwyddo, dylech deilwra eich dulliau cyfathrebu i gyd-fynd â gwerthoedd y gynulleidfa gyfan.

Anaml iawn y bydd eich sefydliad yn fframio ymatebion o amgylch amddiffyn rhyddid, osgoi diraddio, neu ddyfynnu lleisiau gan gynulleidfaoedd eraill. Ac eto, gall gwneud hynny helpu i lunio negeseuon sy'n ymgysylltu â phobl heb ymddieithrio'r rhai y mae camwybodaeth/twyllwybodaeth/drwgwybodaeth yn dylanwadu arnynt.

Naratif amgen yn hytrach na gwrth-naratif

Cyn penderfynu mynd i'r afael â honiadau, ystyriwch a yw'r honiadau'n debygol o achosi niwed yn y byd go iawn a maint yr ymgysylltiad â naratifau ffug. Gall ymateb gynyddu ymwybyddiaeth ac arwain cyfryngau traddodiadol i fframio'r mater fel anghydfod cytbwys. Mae'n bosibl y byddai'n ddoeth gwrthod ymateb i honiadau er mwyn peidio â rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater.

Fodd bynnag, gallai peidio ag ymateb fod yn annerbyniol i'ch sefydliad. Os ydych chi'n cywiro honiadau, defnyddiwch lefarwyr/unigolion sy'n fwy tebygol o gael eu credu gan y gynulleidfa rydych chi'n dymuno ei darbwyllo. Os yw'r gynulleidfa wedi'i pharatoi i amau eich sefydliad, mae'n annhebygol y byddant yn rhoi gwrandawriad teg i'ch neges yn uniongyrchol. Yn olaf, ceisiwch ragweld sut bydd y rheini sy'n lledaenu celwyddau yn ymateb. Drafftio eich datganiad i ragweld gwrth-hawliadau tebygol heb waethygu'r sefyllfa ymhellach.

Partneriaethau rhagweithiol

Agwedd bwysig arall ar lunio ymateb yw datblygu a chynnal partneriaeth rhagweithiol o sefydliadau o'r un anian sy'n gallu darparu undod pan fydd unrhyw un o'ch sefydliadau'n cael eu targedu. Gall meithrin partneriaeth eich helpu i gydlyn negeseuon, datblygu rhwydwaith ymateb cyflym, a rhannu dysgu a gwybodaeth am adnoddau a dulliau gweithredu sydd wedi gweithio.

Bydd meithrin partneriaeth a all siarad yn gyhoeddus am naratif amgen yn helpu i ddangos i'r cyhoedd bod cefnogaeth i'r gwaith y mae eich sefydliad yn ei wneud. Bydd yn eich helpu i ddangos na ddylid ystyried bod yr honiadau ffug a'ch ymateb o reidrwydd yr un mor bwysig â'i gilydd. Wrth feithrin mwy o bartneriaethau ehangach a mwy amrywiol, bydd yn fwy tebygol o fod yn glir bod y camdriniwr ymysg y lleiafrif.

RHAN 5

Cyfeiriadur cymorth

Os yw eich sefydliad yn cael ei dargedu, cofiwch nad ydych chi ar eich pen eich hun. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at wahanol wasanaethau a dulliau a allai fod ar gael i'ch cefnogi.

Yr Heddlu

Mae'n debygol iawn y bydd cyflawnwyr casineb ac aflonyddu yn cuddio y tu ôl i gyfrifon dienw ac efallai na fydd yn hawdd eu hadnabod. Mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn gallu dweud pethau na fydden nhw byth yn ystyried eu dweud wyneb-yn-wyneb. P'un a yw'r cyflawnwr yn ddienw ai peidio, gall rhai sefyllfaoedd waethygu i'r pwynt lle mae angen i'r heddlu ymyrryd.

Mae'n hanfodol eich bod yn ffonio'r heddlu ar 999 mewn argyfwng:

- Pan fydd perygl uniongyrchol i fywyd.
- Pan fydd rhywun yn dreisgar neu'n bygwth trais.
- Pan fydd trosedd ar y gweill, fel difrod i eiddo.
- Pan fydd yr unigolyn a amheuir yn dal yn y fan a'r lle.

Os ydych chi wedi gweld neu wedi dioddef trosedd nad yw'n argyfwng, gallwch roi gwybod amdano ar-lein drwy ddilyn y dolenni isod:

- [Heddlu Gogledd Cymru](#)
- [Heddlu Dyfed Powys](#)
- [Heddlu Gwent](#)
- [Heddlu De Cymru](#)

Canolfan Cymorth Casineb Cymru

Mae trosedd casineb yn cyfeirio at unrhyw ymddygiad troseddol sy'n ymddangos fel petai wedi'i gymell gan elyniaeth neu ragfarn, neu sy'n cynnwys geiriau neu ymddygiad sy'n dangos gelyniaeth, ar sail canfyddiad person o'r canlynol:

- hil
- crefydd
- cyfeiriadedd rhywiol
- hunaniaeth drawsrywiol
- anabled.

Gall trosedd casineb gynnwys cam-drin geiriol, bygwth, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â difrodi eiddo. Gall troseddau casineb ddigwydd wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Gymorth i Ddiodefwyr Cymru, yn cynnig cymorth ac eiriolaeth annibynnol a chyfrinachol i ddioedfwyr a thystion troseddau casineb yng Nghymru. Ni fydd pob achos yn gallu mynd i'r llys, ond byddwch yn cael cynnig cymorth i'ch helpu i ddelio â'r hyn sydd wedi digwydd i chi beth bynnag. Gallwch hefyd roi gwybod i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru am droseddau casineb os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod i'r Heddlu.

Gallwch ffonio Canolfan Cymorth Casineb Cymru am ddim ac ar unrhyw adeg ar 0300 3031 982 neu drwy anfon e-bost i Hate.CrimeWales@victimsupport.org.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan: <https://reportheate.victimsupport.org.uk/>

Cyllidwyr

Efallai fod eich cyllidwr wedi sefydlu dulliau i helpu elusennau wedi'u targedu yn yr amgylchiadau hyn. Ystyriwch gysylltu â nhw i ofyn am gymorth a rhoi gwybod iddyn nhw am y risgiau y mae eich sefydliad yn eu hwynebu wrth ddarparu gweithgareddau a ariennir.

Y Comisiwn Elusennau

Mae'n ofynnol i elusennau roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau sy'n arwain at, neu sy'n peryglu, niwed sylweddol i fuddiolwyr, staff a gwirfoddolwyr elusen, yn ogystal â digwyddiad sy'n arwain at ddifrod i eiddo elusen.

Bydd y Comisiwn Elusennau eisiau gwybod beth sydd wedi digwydd, sut yr ymdrinnir â'r sefyllfa, ac a roddwyd gwybod i'r heddlu. Mae canllawiau ar sut i adnabod digwyddiadau difrifol, a ble i roi gwybod amdanynt, ar gael ar-lein.

Dangosir enwau holl ymddiriedolwyr yr elusen i'r cyhoedd ar y gofrestr elusennau, oni bai fod goddefeb wedi'i rhoi. Dan amgylchiadau arbennig, megis pan fo unigolyn neu bobl mewn perygl corfforol neu feddyliol, mae'n bosibl tynnu enw ymddiriedolwr oddi ar y gofrestr elusennau cyhoeddus. Caniatáu goddefeb yw'r enw ar hyn.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn uniongyrchol i'r [Comisiwn Elusennau](#).

Timau Diogelwch ac Ymddiriedolaethau cyfryngau cymdeithasol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o dimau Diogelwch ac Ymddiriedolaethau cyfryngau cymdeithasol wedi lleihau'r ffyrdd y byddant yn ymyrryd i gael gwared ar gynnwys niweidiol, rhwystro defnyddwyr, neu gyflwyno manylion y gellir eu hadnabod i'r Heddlu. Fodd bynnag, byddem yn dal i gynghori pob unigolyn ac elusen sy'n cael eu targedu i roi gwybod am gynnwys niweidiol, gan fod hyn yn dal yn gallu cael effaith fanteisiol mewn rhai achosion, a thystiolaeth o'r camau rydych chi wedi'u cymryd i ddiogelu eich sefydliad. Cofiwch ei bod yn annhebygol y bydd camau'n cael eu cymryd pan na fydd Telerau Gwasanaeth y llwyfan wedi cael eu torri neu pan na fydd trosedd wedi cael ei chyflawni.

Rheoleiddwyr – Ofcom, y Comisiynydd Safonau ac ati

Opsiwn arall i'ch sefydliad yw ystyried a allai corff rheoleiddio fod o gymorth i'ch helpu i ddiogelu eich sefydliad yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y byddwch yn gallu cyflwyno tystiolaeth i Ofcom (neu weithio gyda Llywodraeth Cymru neu sefydliad arall i wneud hynny) fel ffordd o'u helpu i orfodi Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Yn yr un modd, os yw eich camdriniwr yn wleidydd, bydd yn rhwym wrth God Ymddygiad a oruchwylir gan Gomisiynydd/Pwyllgor Safonau. Gallai eich sefydliad apelio i'r corff perthnasol i sicrhau yr ymchwiliad i unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad hwnnw.

Os yw'r cyfrif sy'n eich targedu yn codi arian ond mae'n ymddangos nad yw wedi'i ymgorffori'n iawn, gallech apelio i'r Comisiwn Elusennau neu Dŷ'r Cwmniau i ymchwilio i'r mater.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Cyngor Gwirfoddol Sirol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol wedi'u sefydlu i ddarparu'r seilwaith sy'n cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru. Maent yn awyddus i roi cymorth i fudiadau trydydd sector sydd wedi cael eu targedu oherwydd eu gwaith, ac mae'n bosibl bydd ganddynt ganllawiau defnyddiol y gallant eu rhannu i'ch helpu i ddelio â'r amgylchiadau heriol presennol. Yn y gorffennol, maent wedi cyhoeddi datganiadau o undod ar gyfer sefydliadau wedi'u targedu.

Cysylltiadau Defnyddiol

[CALL – Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru](#)

Mae CALL yn cynnig cymorth emosiynol a gwybodaeth/dogfennau am iechyd meddwl a materion cysylltiedig i bobl Cymru.

[Cyngor ar Bopeth](#)

Cyngor ar-lein am ddim ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys y gyfraith a'r llysoedd.

[Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr](#)

Mae'r Comisiwn Elusennau hefyd yn cynhyrchu canllawiau ar Ddiogelu ac amddiffyn pobl ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr – [Safeguarding and protecting people for charities and trustees – GOV.UK](#)

[Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol](#)

Mae'r Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol wedi cynhyrchu canllawiau ar weithgarwch yr Archwilydd ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer staff diogelwch a staff cyffredinol.

[Protect UK](#)

Mae Protect UK yn rhoi cyngor, arweiniad a dysgu am ddim i helpu sefydliadau a chymunedau i ddeall diogelwch amddiffynnol a gwella eu hymateb i'r risg o derfysgaeth. Mae eu canllawiau'n cynnwys llawer o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol ar gyfer bygythiadau is-derfysgol hefyd.

Llywodraeth Cymru

Yn anffodus, ni all Llywodraeth Cymru ymchwilio i achosion o gasineb neu aflonyddu na chymryd rhan mewn ymchwiliadau troseddol.

Mae cyfiawnder troseddol yn fater a gedwir yn ôl ac felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am blismona. Er bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phlisma yn Nghymru ar feysydd o ddiddordeb ar y cyd, mae gan yr Heddluoedd ymreolaeth dros y penderfyniadau gweithredol y maent yn eu gwneud, a byddai'n amhriodol i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau ar faes ymarfer a gedwir yn ôl neu ymyrryd mewn achosion unigol.

Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cymorth wedi'i dargedu ac annog gweithio mewn partneriaeth i helpu a chryfhau'r gwaith o liniaru tensiynau, yn ogystal â chyfeirio unigolion yr effeithir arnynt at gymorth ac eiriolaeth berthnasol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa orau i siarad yn gyhoeddus am densiynau cymunedol parhaus. Gallai gwneud hynny gynyddu'n anfwriadol unrhyw gamwybodaeth/twyllwybodaeth/drwgwybodaeth i gynulleidfa lawer ehangach, yn enwedig wrth ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau traddodiadol.

Os oes gennych awgrymiadau ynghylch sut i wella'r canllaw hwn neu'r ymatebion i'r heriau hyn, anfonwch nhw at: cydlyniant@llyw.cymru